Swansea
City
on the
Beach

Civic: a world-class seafront destination at the heart of a new City Waterfront.

urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Civic is the transformation of one of Swansea’s most recognisable buildings into a new focal point for the new City Waterfront neighbourhood. A bold example of Welsh Brutalism, the former Civic Centre is being reimagined as a contemporary, mixed-use destination — built on good bones, shaped for new uses, and open to everyone.

At the heart of the *City Waterfront* and within the wider *City on the Beach* regeneration, Civic represents a shift in how Swansea serves its citizens and presents itself to the world. More than the renewal of a single building, it forms part of a broader reimagining of the city — reconnecting city life, culture and commerce with the waterfront, continuing Swansea’s civic story while signalling a confident new chapter. By retaining what makes the building distinctive and opening it up to new uses, audiences and energy, Civic helps shape a city that is outward-looking, inclusive and defined by its relationship with the sea.

Where the city meets beach

Positioned between the city centre and the sea, the City Waterfront will become Swansea's most significant new neighbourhood — a mixed-use district bringing together residential life, leisure, culture and hospitality in an unparalleled coastal setting. At its heart sits Civic, occupying one of the most prominent sites on the bay. Its scale, visibility and waterfront position place it at the forefront of the city's transformation, helping frame new public spaces, activate the promenade and signal arrival at the City on the Beach.

As the first essential step in this wider vision, Civic opens out to the waterfront at ground level, extending the energy of the city towards the sea. Active frontages, cafés and public spaces animate the promenade throughout the day, creating a lively edge where people meet, pause and pass through. The building becomes part of the beachfront experience — not a boundary, but a connector between city life and the open coast, helping establish the character and momentum of Swansea's evolving City Waterfront.

Civic Centre, Swansea ↓



Destination Swansea

Swansea is a city defined by its relationship with the water. Open, outward-looking and resilient, it combines the energy of an urban centre with the space, beauty and restorative qualities of the coast. Today, the City on the Beach is attracting significant investment, renewed cultural confidence and a new generation of talent — reshaping the city's future.



← Civic Centre, Swansea

A beachfront opportunity in a beachfront city.

True beachfront development opportunities within UK cities are exceptionally rare. Civic sits directly on Swansea's five-mile promenade, looking south across the full sweep of Swansea Bay and the open water beyond. Few places in the country can offer such a direct and uninterrupted relationship between city, sea and landscape. Alive throughout the day and into the evening, Civic is conceived as a city hub of energy and activity. Hospitality uses spill out towards the promenade and waterfront, drawing people along the beach. Together with the neighbouring arena, Civic forms a natural focal point for Swansea's visitor economy — a destination where events, culture, leisure including a new city aquarium and coastal living come together. Residential accommodation above, alongside the potential for cultural uses and a hotel, ensures a constant presence and sense of life, establishing Civic as a vibrant, animated centre of activity on the waterfront.


City on the Beach





↓ Civic Centre, Swansea









Swansea is a vibrant, compact city where culture, food, sport, shopping, and leisure are all within easy reach.

Everything in Swansea is close at hand. Independent shops, galleries, music venues, markets and restaurants sit alongside major cultural and sporting destinations. The city's scale makes it easy to navigate, while its universities and growing creative scene bring energy, talent and innovation. Beyond the city centre, natural beauty lies in every direction. Swansea Bay curves gently along the waterfront to Mumbles and the start of the Gower Peninsula — the UK's first Area of Outstanding Natural Beauty. This proximity of urban life and open landscape defines Swansea's character and underpins its exceptional quality of life.

City on the Beach is about joining these elements together: reconnecting the city to the shoreline, culture to landscape, and everyday life to the beach. It places wellbeing, shared experience and environmental quality at the heart of regeneration, using the beach not as a backdrop but as an active part of the city ethos. Few places can offer civic spaces alongside walks by the sea, grassy knolls overlooking the bay, and moments of calm alongside high-energy destinations. The result is a city centre that feels healthier, more human — and unmistakably coastal.

Civic Pride

Civic is the essential catalyst for the City on the Beach transformation.

For generations, the Civic Centre has been a symbol of Swansea's public life. Its transformation is about more than repurposing a building — it is about building confidence and pride in a place that belongs to the city.

Civic will help redefine how Swansea is seen, both by those who live here and those encountering the city for the first time. By retaining its architectural strength, while introducing new uses and openness, Civic becomes a statement of ambition: rooted in history, but unafraid of change.

↓ Civic Centre, Swansea



Why Civic, why now

"Cities on the up 2025"

Swansea is a compact, well-connected city with growing regional and national reach. Two universities provide a strong pipeline of graduate talent, supporting an economy that is increasingly shaped by knowledge, creativity and innovation. Significant public and private investment is driving a new phase of regeneration, with cultural, leisure and infrastructure projects reshaping the waterfront and the wider city centre. Together, these changes are strengthening Swansea's reputation as a place to live, work and invest — a city defined by quality of life, opportunity and its unique coastal setting.

Investors/Partners
Civic sits at the intersection of regeneration momentum and long-term value creation. Positioned on Swansea's prime waterfront and integrated with the city's wider transformation, it benefits from sustained public and private investment and a growing visitor economy. Its scale, prominence and flexible configuration provide resilience across market cycles, while the quality of architecture, public realm and programming differentiates Civic from conventional mixed-use development. More than a single asset, Civic is a catalyst — shaping place, attracting footfall and anchoring long-term value in one of the UK's most distinctive coastal cities.

Businesses/Tenants
Civic offers more than a place to trade. It provides identity, visibility and connection, set within a lively waterfront destination shaped by food, culture and everyday leisure. The mix of uses, events and public life creates constant energy and exposure, supporting footfall and repeat visits. For operators and brands, Civic offers a setting that enhances wellbeing, supports recruitment and retention, and aligns with values around experience, quality and community. It is a place where businesses become part of a new waterfront story — visible, social and embedded in the City on the Beach.

1 billion+ regeneration programme underway across the city

2 million people within 1 hr commuting distance

600,000 people within a 30 minute commute

29,000 students at two universities, supplying skills, innovation, and graduate talent

90% of homes and businesses already gigabit-capable broadband

5 mile promenade and sandy beach

50+ parks and gardens, plus the Gower Peninsula (the UK's first Area of Outstanding Natural Beauty) on your doorstep

3,500 seat Swansea Arena just next door

Civic Life

Civic is designed to be full of life — a place where people can live, work, meet and create. At ground level the building opens to the promenade, animated by cafés, restaurants and independent leisure businesses with shared spaces that bring constant movement and activity to the waterfront throughout the day and into the evening.

Civic brings together a vibrant mix of uses that reflect the new spirit of Swansea's Waterfront. Above the lively ground floor, characterful apartments offer a new way to live beside the sea. Throughout the building, spaces for work and enterprise support local businesses and creative organisations. Along the promenade and within the dramatic atrium, hospitality, culture and events create a welcoming destination for residents, visitors and the wider community. Together these elements establish Civic as a place that is active, sociable and open — where living, working and visiting come together to shape a distinctive waterfront experience.


Hufen iâ
Hufen iâ
Hufen iâ
Hufen iâ
SOLD HERE







A place to live

↓ Smiths Dock, North Shields




↓ Civic Centre, CGI











↑ Park Hill, Sheffield


Characterful homes beside the sea, combining coastal calm with the energy of the city in a new seaside neighbourhood.

Living at Civic offers a rare opportunity to wake each day to expansive views of Swansea Bay, the changing sky and the constant rhythm of the sea. The building's generous proportions and distinctive architecture create apartments with character, space and light — homes shaped by a strong structure and an exceptional coastal setting.

A range of apartment sizes will support a diverse residential community, from first-time buyers and modern families to imaginative downsizers seeking a vibrant urban lifestyle beside the sea. Residents can relax, meet neighbours and spend time outdoors in communal rooftop gardens and terraces overlooking the bay, while also enjoying generous public spaces and a lively neighbourhood of cafés, shops and local businesses.

Living close to the sea has long been associated with improved health and wellbeing. At Civic, the promenade, beach and coastal paths become part of everyday life — encouraging walking, cycling, swimming and time spent outdoors in one of the UK's most uplifting urban coastal settings.

A place to do business







Park Hill, Sheffield



Royal William Yard, Plymouth



Visible, connected and supported within Swansea’s most dynamic waterfront destination.

Civic is designed to support a diverse community of independent businesses, local entrepreneurs and creative enterprises. Flexible commercial spaces encourage new ideas and emerging brands, helping to build a distinctive mix of shops, studios, cafés and services that reflect the character of Swansea and its waterfront.

Located between the city centre and the promenade, Civic benefits from exceptional visibility and footfall. Visitors arriving for events at the arena, people walking along the beach and residents living nearby all converge at this point on the waterfront, creating a steady flow of activity throughout the day and into the evening.

More than simply a place to trade, Civic provides a setting where businesses can be part of a wider story of regeneration and cultural confidence. For operators and entrepreneurs, it offers the opportunity to shape a new destination — contributing to the energy, creativity and everyday life of Swansea’s emerging City Waterfront neighbourhood.

A place to visit

A world-class destination on Swansea Bay — where food, culture and coastal life come together for residents, visitors and the wider region.

Civic will become one of Swansea's most exciting places to visit — a welcoming waterfront destination shaped by hospitality, culture and shared experience. At its heart, the dramatic atrium will host a vibrant food destination celebrating the best of Welsh cooking, alongside cafés, restaurants and informal gathering spaces that spill out towards the promenade.

Throughout the year, a programme of markets, performances, cultural events and seasonal celebrations will bring the building to life, creating reasons to return again and again. Alongside these programmed moments, the everyday pleasures of the waterfront — coffee by the sea, meeting friends, browsing independent shops or simply pausing to watch the tide — will make Civic a natural part of city life.

With a mix of offers suited to every pocket, Civic is designed to feel open, inclusive and accessible. It will be a place that truly belongs to the people of Swansea while also establishing itself as a major destination for visitors to the city and the wider region.

↓ Royal William Yard, Plymouth













A place to be active

Life at Civic extends beyond the building and public space at City Waterfront — the five-mile promenade and wide expanses of sand and sea invite active lifestyles at every age.









From early-morning swims to evening walks along the shoreline, being active becomes a natural part of everyday life. The five-mile promenade offers space to run, cycle and walk, while the beach invites swimming, paddleboarding and time by the water throughout the year.


Civic sits at the meeting point of city and coast, and at the starting point of the Gower Peninsula coastal path along the five-mile sandy bay to Mumbles and westward through some of the UK's most celebrated natural landscapes. To the east, the bay backs onto the Swansea Marina at the mouth of the River Tawe, offering access to sailing and paddle sports on the Lower Tawe. Further inland the Tawe Valley offers some of the best white water kayaking in the UK.

So whether it's hardcore kayaking at Glyntawe or walking the dog along the Swansea Bay, Civic makes outdoor living effortless — embedding health and wellbeing and pleasure and leisure into daily life.



Brutal is Beautiful

Brutalism was never meant to be quiet. It is expressive, confident and unapologetic — architecture that believes in the power of public buildings to shape civic life.





Why this building matters now and how design can transform its use.

Civic belongs to a time of strong civic values, expressed at both national and local level. It was conceived as a building for the public: confident, generous and rooted in a belief that architecture could shape civic life. Civic embodies those values in its scale, presence and relationship with the city and the bay. Today, those same principles underpin its transformation. Retaining and adapting the Civic Centre is an inherently sustainable act — preserving embodied carbon while recognising the long-term value of robust civic architecture. Rather than erasing its past, the project works with the existing structure, using intelligent and creative design to rediscover its role as a focal point for public life.


Carefully judged interventions introduce light, openness and flexibility, allowing the building to meet contemporary standards and expectations without losing its character. Thresholds are softened, movement is rethought and internal spaces are opened up to support activity, encounter and shared experience. The result is a Civic that feels both grounded and forward-looking: resilient, adaptable and once again central to the life of the city — a place where civic values are not only remembered, but actively lived.

↓ Civic Centre, Swanea











Civic Character



↓ Aquarium at Civic Centre, Swansea



Civic Centre, Swansea ↑

What's so good about Civic? Read on.

Generous floorplates, strong structural rhythms and deep façades create spaces with personality and adaptability. Views out to sea and sky reinforce a strong sense of place, while material honesty gives Civic its distinctive atmosphere. This is a building that encourages creative reuse and new connections. But Civic is defined as much by its setting as by its form. Stretching along the promenade, its broad south-facing elevation opens fully to the beach and the sweep of Swansea Bay. This close relationship with the sea gives Civic a rare quality. Panoramic views bring a constant sense of movement, weather and scale. It is a setting that naturally lends itself to recreation and hospitality — places to eat, gather and linger just steps from the beach — while also offering something exceptional for city dwellers drawn to space, light and big horizons. Few places can offer this combination: minutes from the city centre, yet facing an uninterrupted view of the sea. Civic sits between urban life and open landscape, where the energy of the city meets the calm of the coast. It is this duality — civic and coastal, animated and expansive — that makes Civic a truly singular place to live, visit and experience Swansea at its most generous.

A Southbank for Swansea





↓ Southbank Centre, Swansea



Civic is one of Wales' few remaining Brutalist icons, arguably the building with the most stunning setting, whose potential extends well beyond its architectural merit.



Swansea's visitor economy is already a major driver of footfall, spend and local vibrancy. The wider Swansea Bay area attracts around 4.6 million visitors annually, contributing more than £650 million to the local economy and supporting over 5,400 jobs in hospitality, leisure and tourism. Landmark destinations like Swansea Arena — which has welcomed over 750,000 visitors since opening — help bring more people into the city centre and boost trade for local hospitality and retail. Civic's position as the seaward anchor for the Ffordd i'r Môr will amplify this impact, delivering more footfall to everywhere along the route.

Like London's South Bank, defined by it's brutalist masterpieces, the potential is transformational. The Southbank Centre — alongside the National Theatre and Hayward Gallery — is one of the UK's most visited cultural hubs, contributing to a riverside district that attracts tens of millions of people annually. City on the Beach positions Swansea to build an equally dynamic destination — where culture, food, events and waterfront leisure come together to drive footfall, extend dwell time and strengthen the city's reputation as a must-visit regional and national destination.

Brutal is Beautiful – One we made earlier

Park Hill, Sheffield

Park Hill stands proudly overlooking Sheffield city centre and was originally completed in 1961 as a bold vision for modern urban living. Conceived as a model of social progress, its iconic "streets in the sky" were designed to encourage neighbourly interaction, shared identity and civic pride. Over time, however, changing social conditions and lack of investment saw the estate become increasingly isolated and misunderstood — its architectural ambition overshadowed by decline.

Its long-term regeneration has fundamentally shifted that narrative. Through a careful process of retention, adaptation and reinvention, Park Hill has been transformed into a mixed, lived-in neighbourhood, delivering hundreds of new homes, student accommodation and more than 50,000 sq ft of workspace. Independent businesses at ground level, alongside cultural activity and everyday life, have helped re-establish the building as part of the city rather than apart from it.

Crucially, Park Hill's renewal has reshaped perceptions of Sheffield itself. Once seen as a liability, the estate is now widely regarded as a landmark and a symbol of confidence — evidence that bold civic architecture can be reused rather than erased. Its success demonstrates how intelligent regeneration can turn a challenged building into a sought-after address, and in doing so signal a broader urban renaissance.

Urban Splash, Park Hill, Sheffield →

"Urban Splash's Park Hill transformation has been widely cited as part of Sheffield's emergence as a "northern capital of cool", symbolising a wider cultural and urban renaissance for the city."











The Building

Garden

Residential


Level 01 marks the first residential floor. Each wing functions as an independent block with no through-route between them, simplifying circulation and security. The largest apartments are positioned along the seafront edge to capture panoramic views, enhancing their desirability and market value.

The one, two and three bedroom apartments include private outdoor amenity space and recessed balconies are carved into the outward-facing façades to preserve the building line and maximise views, while slim, bolton balconies project from the courtyard elevations to animate the interior frontage without compromising daylight.

Commercial and Cultural

A wide range of unit sizes, from kiosks to 5,000 sq/ ft offer the opportunity for a lively and complimentary mix of uses facing the grassy knoll and beach front. Restaurants, supported by lower ground floor kitchens and services, form the East and West anchor uses bookending a continuous strip of active frontage. Between these bookends, informal F&B, coffee kiosks, and leisure retail spill onto outside trading areas punctuated by performance, event and recreation spaces.

isometric Graphic from Rural Office ↓



Crynodeb

Mae DNA Abertawe wedi'i ddiffinio gan ddidwylledd, gwydnwch a dyfeisgarwch. Ers canrifoedd mae wedi edrych tuag allan - yn ddinas wedi'i siapio gan fasnach, crefftwaith a chyfnewid. Mae ei phobl yn ddyfeisgar a mentrus, yn addasu'n gyflym a ddim yn ofni newid. Mae diwydiant ac arloesi wedi mynd law yn llaw yma erioed, o gopr a masnach i ddiwylliant a chreadigrwydd. Heddiw, mae'r un ysbryd yn ysgogi math newydd o greu: syniadau, mentrau a chymunedau sy'n adeiladu ar orffennol Abertawe tra'n llunio ei dyfodol.

Rydym yn eich gwahodd i fod yn rhan o wireddu'r uchelgais hon - i fuddsoddi, i weithio, i gydweithredu, i ddod â'r syniadau, yr egni a'r bywyd a fydd yn helpu i lunio'r ddinas a chreu ffyniant ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Summary

Swansea's DNA is defined by openness, resilience and ingenuity. For centuries, it has looked outward — a city shaped by trade, craftsmanship and exchange. Its people are resourceful and enterprising, quick to adapt and unafraid of change. Industry and innovation have always gone hand in hand here, from copper and commerce to culture and creativity. Today, that same spirit drives a new kind of making: ideas, enterprises and communities that build on Swansea's past while shaping its future.

We invite you to be part of making Civic happen — to invest, to work, to collaborate, and to help shape a place that will define Swansea for generations to come.

Yr Adeilad

Yr Ardd

Preswyl


Y llawr preswyl cyntaf yw lefel 01. Mae pob adain yn gweithredu fel bloc annibynnol heb unrhyw lwybr trwodd rhyngddynt, gan symleiddio cylchrediad a diogelwch. Lleolir y fflatiau mwyaf ar hyd ymyl glan y môr er mwyn gweld y golygfeydd panoramig, gan wella eu dymunoldeb a'u gwerth marchnadol.

Mae'r 134 o fflatiau un, dwy a thair ystafell wely yn cynnwys man amwynder awyr agored preifat: mae balconïau cilfachog wedi'u cerfio i'r ffasadau sy'n wynebu allan er mwyn cadw'r llinell adeiladu a gwneud y mwyaf o'r golygfeydd, tra bod bollt denau ar falconïau'n ymestyn o olwg yr iard i animeiddio'r tu blaen mewnol heb amharu ar olau dydd.

Masnachol

Ceir ystod eang o feintiau unedau, o giosgau i 5,000 troedfedd sgwâr, yn cynnig y cyfle ar gyfer cymysgedd fywiog a chanmoliaethus o ddefnydd sy'n wynebu'r bryncyn glaswelltog a glan y môr. Mae bwytai, gyda chefnogaeth ceginau a gwasanaethau'r llawr gwaelod is, yn ffurfio defnydd angor y Dwyrain a'r Gorllewin gan begynnu stribed barhaus o'r tu blaen gweithgar. Rhwng y ddau ben, ceir Bwyd a Diod anffurfiol, ciosgau coffi a manwerthu hamdden, yn gorlifo i'r ardaloedd masnachu tu allan yn ogystal â mannau hamdden, perfformio a digwyddiadau.

Graffeg isometrig gan y Swyddfa Wledig



Allwedd

- Stiwdio
- 1 Ystafell Wely 2 Berson
- 2 Ystafell Wely 3 Person
- 2 Ystafell Wely 4 Person
- 3 Ystafell Wely 5 Person
- Yr Ardd
- Neuadd Fwyd yr Atriwm
- Bwyty
- Defnydd cymysg arall a diwylliant

Mae Brwtaliaeth yn Hardd - Un a wnaethom cynt

Park Hill, Sheffield

Saif Park Hill yn gadarn yn edrych dros ganol dinas Sheffield a chafodd ei gwblhau'n wreiddiol ym 1961 fel gweledigaeth feiddgar ar gyfer bywyd dinesig modern. Wedi'i lunio fel model o gynnydd cymdeithasol, lluniwyd ei "strydoedd yn yr awyr" eiconig i annog rhyngweithio rhwng cymdogion, hunaniaeth a rennir a balchder dinesig. Dros amser, fodd bynnag, yn sgil newid mewn amodau cymdeithasol a diffyg buddsoddiad, daeth yr ystâd yn fwyfwy ynysig a chafodd ei chamddeall — cafodd ei huchelgais bensaernïol ei chysgodi gan ddirywiad.

Mae'r naratif hwnnw wedi newid yn sylfaenol gyda'r adfywio hirdymor. Trwy broses ofalus o gadw, addasu ac ail-greu, mae Park Hill wedi ei drawsnewid i fod yn gymdogaeth gymysg y mae pobl yn byw ynddi, yn darparu cannoedd o gartrefi newydd, llety myfyrwyr a mwy na 50,000 troedfedd sgwâr o weithleoedd. Mae busnesau annibynnol ar lefel y ddaear, ynghyd â gweithgaredd diwylliannol a bywyd bod dydd, wedi helpu i ailsefydlu'r adeilad fel rhan o'r ddinas yn hytrach na'i fod ar wahân iddi.

Yn holl bwysig, mae adnewyddu Park Hill wedi ail-lunio canfyddiadau o Sheffield ei hun. Ar un adeg fe'i gwelwyd fel rhwymedigaeth, ond mae'r stâd bellach yn cael ei hystyried fel tirnod a symbol o hyder - tystiolaeth y gellir ailddefnyddio pensaernïaeth ddinesig feiddgar yn hytrach na'i dileu. Mae ei lwyddiant yn dangos sut y gall adfywio deallus droi adeilad heriol yn gyfeiriad poblogaidd, ac wrth wneud hynny, rhoi arwydd o adfywiad dinesig ehangach.

"Mae trawsnewidiad Urban Splash o Park Hill wedi cael ei nodi'n eang fel rhan o ddatblygiad Sheffield fel "prifddinas cŵl y gogledd", sy'n symbol o ddadeni diwylliannol a dinesig ehangach a gyfer y ddinas."











Glan Ddeheuol Abertawe





↓ Canolfan Southbank, Llundain



Dinesig yw un o'r ychydig eiconau Brwtaliaeth sydd ar ôl yng Nghymru, a gellir dadlau mai hwn yw'r adeilad sydd â'r lleoliad mwyaf godidog, y mae ei bosibilrwydd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'w rinweddau pensaernïol.



Mae economi ymwelwyr Abertawe eisoes yn sbardun mawr i nifer yr ymwelwyr, gwariant a bywiogrwydd lleol. Yn flynyddol mae ardal ehangach Bae Abertawe yn denu oddeutu 4.6 miliwn o ymwelwyr, gan gyfrannu mwy na £650 miliwn i'r economi leol a chefnogi dros 5,400 o swyddi mewn lletygarwch, hamdden a thwristiaeth. Mae lleoliadau nodedig fel Arena Abertawe - sydd wedi croesawu dros 750,000 o ymwelwyr ers agor - yn helpu i ddod â mwy o bobl i ganol y ddinas a hybu masnach ar gyfer lletygarwch a manwerthu lleol. Bydd lleoliad Dinesig fel yr angor tua'r môr ar gyfer y Ffordd i'r Môr yn cynyddu'r effaith hon, gan sicrhau mwy o ymwelwyr i bob man ar hyd y llwybr.

Fel y South Bank yn Llundain, a ddiffinir gan ei gampweithiau o frwtaliaeth, mae'r posibilrwydd yn drawsnewidiol. Canolfan Southbank - ynghyd â'r National Theatre a Galeri Hayward - yw un o hybiau diwylliannol mwyaf poblogaidd y DU, yn cyfrannu at ardal glan yr afon sy'n denu degau o filiynau o bobl yn flynyddol. Mae'r Ddinas ar y Traeth yn gosod Abertawe fel lleoliad yr un mor ddeinamig - lle daw diwylliant, bwyd, digwyddiadau a hamdden glan môr ynghyd i wella nifer yr ymwelwyr, ymestyn yr amser maent yn aros yno a chryfhau enw da'r ddinas i fod yn lleoliad rhanbarthol a chenedlaethol y dylid ymweld ag ef.

Mae Brwtaliaeth yn Hardd

Cymeriad Dinesig




Yr Acwariwm yng Nghanolfan Ddinesig, Abertawe



Y Ganolfan Ddinesig, Abertawe

Beth sydd mor dda am Dinesig? Darllenwch ymlaen.

Mae cynlluniau llawr hael, rhythmau strwythurol cryf a ffasadau dwfn yn creu mannau gyda phersonoliaeth a hyblygrwydd. Mae golygfeydd allan i'r môr a'r awyr yn atgyfnerthu ymdeimlad cryf o le, tra bod gonestrwydd materol yn rhoi ei awyrgylch arbennig i Dinesig. Dyma adeilad sy'n annog ailddefnyddio creadigol a chysylltiadau newydd. Ond diffinir Dinesig cymaint gan ei leoliad fel gan ei ffurf. Yn ymestyn ar hyd y promenâd, mae ei dalcen eang sy'n wynebu'r de yn agor yn llawn i'r traeth ac ehangder Bae Abertawe. Mae'r berthynas agos hon â'r môr yn rhoi ansawdd prin i Dinesig. Mae golygfeydd panoramig yn dod ag ymdeimlad cyson symudiad, tywydd a maint. Mae'n lleoliad sy'n rhoi ei hun yn naturiol i hamddena a lletygarwch - lleoedd i fwyta, ymgynnull a chael seibiant rai camau o'r traeth - wrth gynnig rhywbeth arbennig ar gyfer preswylwyr y ddinas sy'n mwynhau gofod, golau a mannau agored. Ychydig o leoedd all gynnig y cyfuniad hwn: funudau o ganol y ddinas, ond eto'n wynebu golygfa o'r môr heb ddim yn tarfu arni. Saif Dinesig rhwng bywyd dinesig a thirwedd agored, lle mae egni'r ddinas yn cwrdd â llonyddwch yr arfordir. Y ddeuoliaeth hon - yn ddinesig ac arfordirol, yn fywiog ac eang - sy'n gwneud Dinesig yn lle gwirioneddol arbennig i fyw, ymweld a phrofi Abertawe ar ei gorau.





Pam fod yr adeilad hwn o bwys nawr a sut y gall dylunio drawsnewid ei ddefnydd.

↓ Canolfan Ddinesig, Abertawe


Mae Dinesig yn perthyn i amser pan oedd gwerthoedd dinesig cryf, yn cael eu mynegi ar lefel genedlaethol a lleol. Fe'i lluniwyd fel adeilad i'r cyhoedd; hyderus, hael ac wedi'i wreiddio mewn cred y gallai pensaernïaeth lunio bywyd dinesig. Mae Dinesig yn ymgorffori'r gwerthoedd hynny yn ei maint, presenoldeb a'i pherthynas gyda'r ddinas a'r bae. Heddiw, mae'r un egwyddorion yn sail i'w thrawsnewidiad. Mae cadw ac addasu'r Ganolfan Ddinesig yn weithred gynhenid gynaliadwy - cadw carbon ymgorfforedig wrth gydnabod gwerth hirdymor pensaernïaeth ddinesig gadarn. Yn hytrach na dileu ei gorffennol, mae'r prosiect yn gweithio gyda'r strwythur presennol, gan ddefnyddio dylunio deallusol a chreadigol i ail-ddarganfod ei rôl fel canolbwynt bywyd cyhoeddus.

Cyflwynodd ymyriadau wedi'u mesur yn ofalus oleuni, lle agored a hyblygrwydd, gan alluogi'r adeilad i gwrdd â safonau a disgwyliadau cyfoes heb golli'i gymeriad. Caiff trothwyon eu hysgafnhau, ailfeddylir am symudiad ac agorir mannau mewnol er mwyn cefnogi gweithgaredd, cyfarfyddiad a phrofiad a rennir. Y canlyniad yw Dinesig sy'n teimlo fel ei bod wedi'i gwreiddio ac yn flaengar: gwydn, hyblyg ac unwaith eto'n ganolog i fywyd y ddinas - man lle mae gwerthoedd dinesig nid yn unig yn cael eu cofio, ond hefyd yn byw'n weithredol.











Mae Brwtaliaeth yn Hardd

Doedd Brwtaliaeth erioed i fod yn dawel. Mae'n fynegiannol, yn hyderus ac nid yw'n ymddiheurol - pensaernïaeth sy'n credu yng ngrym adeiladau cyhoeddus i lunio bywyd dinesig.

Lle i fod yn egnïol

Mae bywyd yn Dinesig yn ymestyn y tu hwnt i'r adeilad a mannau cyhoeddus y Ddinas Glan Môr - mae'r promenâd pum milltir o hyd a'r eangderau llydan o dywod a môr yn gwahodd bywyd egnïol i bob oedran.



O nofio ben bore i gerdded ar lan y dŵr gyda'r nos, daw bod yn egnïol yn rhan naturiol o fywyd bob dydd. Gellir rhedeg, beicio a cherdded ar y promenâd pum milltir o hyd, tra bod modd nofio, padlfyrddio a threulio amser ger y dŵr ar y traeth drwy gydol y flwyddyn.

Saif Dinesig lle mae'r ddinas a'r arfordir yn cwrdd, ac ar gychwyn llwybr arfordirol Penrhyn Gŵyr ar hyd y bae tywodlyd bum milltir o hyd i'r Mwmbwls ac yna i'r gorllewin drwy dirwedd naturiol fwyaf poblogaidd y DU. I'r dwyrain, mae'r bae yn cefnu ar Farina Abertawe wrth geg yr Afon Tawe, sy'n cynnig cyfle i hwylio a chymryd rhan mewn chwaraeon padlo ar y Dawe Isaf. Ymhellach i'r tir mae Cwm Tawe yn cynnig rhai o'r cyfleoedd caiacio dŵr gwyn gorau yn y DU.

Felly p'un a ydych am gaiacio'n galed yng Nglyntawe neu fynd â'r ci am dro ar hyd Bae Abertawe, mae Dinesig yn gwneud byw yn yr awyr agored yn rhwydd - gan roi iechyd a llesiant a phleser a hamdden i fywyd bob dydd.









Lle i ymweld ag ef

Lleoliad o'r radd flaenaf ym Mae Abertawe - lle daw bwyd, diwylliant a bywyd arfordirol ynghyd i breswylwyr, ymwelwyr a'r rhanbarth yn ehangach.

Dinesig fydd un o leoedd mwyaf cyffrous Abertawe ar gyfer ymweliad - lleoliad croesawus ar y glannau wedi'i lunio gan letygarwch, diwylliant a phrofiadau cyffredin. Yn rhan ganolog ohoni, bydd yr atriwm dramatig yn cynnal lleoliad bwyd bywiog i ddathlu'r gorau o goginio Cymru, ynghyd â chaffis, tai bwyta a mannau ymgynnull anffurfiol sy'n ymestyn tuag at y promenâd.

Drwy gydol y flwyddyn, bydd rhaglen o farchnadoedd, perfformiadau, digwyddiadau diwylliannol a dathliadau tymhorol yn dod â'r adeilad yn fyw, gan roi rheswm dros ddychwelyd dro ar ôl tro. Ochr yn ochr â'r gweithgareddau sydd wedi'u rhaglennu, bydd pleserau dydd i ddydd y glannau - coffi ger y môr, cwrdd â ffrindiau, crwydro siopau annibynnol neu'n syml aros i wylio'r llanw - yn gwneud Dinesig yn rhan naturiol o fywyd y ddinas.

Gydag amrywiaeth o gynigion ar gyfer pawb, lluniwyd Dinesig i fod yn agored, cynhwysol a hygyrch. Bydd yn lle a fydd wirioneddol yn perthyn i bobl Abertawe ond hefyd yn sefydlu'i hun fel lleoliad pwysig ar gyfer ymwelwyr i'r ddinas a'r rhanbarth yn ehangach.

↓ Royal William Yard, Plymouth













Lle i wneud busnes







Park Hill, Sheffield



Royal William Yard, Plymouth



Yn weladwy, wedi'i chysylltu a'i chefnogi yn lleoliad glannau mwyaf deinamig Abertawe.

Lluniwyd Dinesig i gefnogi cymuned amrywiol o fusnesau annibynnol, entrepreneuriaid lleol a mentrau creadigol. Mae mannau masnachol hyblyg yn annog syniadau newydd a brandiau sy'n ymddangos o'r newydd, gan helpu i adeiladu cymysgedd arbennig o siopau, stiwdios, caffis a gwasanaethau sy'n adlewyrchu cymeriad Abertawe a'i glannau.

Wedi'i lleoli rhwng canol y ddinas a'r promenâd, mae Dinesig yn elwa o weledigaeth eithriadol a nifer o ymwelwyr. Bydd ymwelwyr sy'n cyrraedd ar gyfer digwyddiadau yn yr arena, pobl sy'n cerdded ar hyd y traeth a phreswylwyr sy'n byw gerllaw i gyd yn cwrdd yn y man hwn ar y glannau, gan greu llif sefydlog o weithgaredd drwy gydol y dydd ac wrth iddi nosi.

Yn fwy na man syml i fasnachu, mae Dinesig yn lleoliad lle gall busnesau fod yn rhan o stori ehangach adfywio a hyder diwylliannol. Ar gyfer gweithredwyr ac entrepreneuriaid, mae'n cynnig cyfle i lunio lleoliad newydd - gan gyfrannu at yr egni, y creadigrwydd a bywyd bob dydd yng nghymdogaeth Dinas Glan Môr newydd Abertawe.

Lle i fyw

↓ Smiths Dock, North Shields




↓ Canolfan Ddinesig, CGI











↑ Park Hill, Sheffield

Cartrefi o gymeriad ger y môr, sy'n cyfuno llonyddwch arfordirol gydag egni'r ddinas mewn cymdogaeth newydd ger y môr.

Mae byw yn Dinesig yn cynnig cyfle prin i ddeffro bob bore i olygfeydd eang o Fae Abertawe, yr awyr newidiol a rhythm parhaol y môr. Mae maint hael yr adeilad a'i bensaernïaeth arbennig yn creu fflatiau gyda chymeriad, lle a golau - cartrefi wedi'u llunio gan strwythur cryf a lleoliad arfordirol eithriadol.

Bydd ystod o feintiau fflatiau yn cefnogi cymuned breswyl amrywiol, o brynwyr am y tro cyntaf a theuluoedd modern i rai dychmygus sydd eisiau cartrefi llai ac yn chwilio am ffordd o fyw dinesig ger y môr. Gall preswylwyr ymlacio, cwrdd â chymdogion a threulio amser yn yr awyr agored mewn gerddi a therasau cymunedol ar y to yn edrych dros y bae, a hefyd fwynhau mannau cyhoeddus hael a chymdogaeth fywiog o gaffis, siopau a busnesau lleol.

Mae byw'n agos at y môr wedi cael ei gysylltu gyda gwell iechyd a llesiant ers amser maith. Yn Dinesig, mae'r promenâd, y traeth a'r llwybrau arfordirol yn dod yn rhan o fywyd bob dydd - gan annog cerdded, beicio, nofio a threulio amser yn yr awyr agored yn un o leoliadau arfordirol dinesig mwyaf calonogol y DU.


Hufen iâ
Hufen iâ
Hufen iâ
Hufen iâ







Bywyd Dinesig

Lluniwyd Dinesig i fod yn llawn bywyd - man lle gall pobl fyw, gweithio, cwrdd a chreu. Ar lefel y ddaear mae'r adeilad yn agor i'r promenâd, sy'n cael ei fywiogi gan gaffis, tai bwyta a busnesau hamdden annibynnol gyda mannau cyffredin sy'n dod â symudiad a gweithgaredd cyson i'r glannau drwy gydol y dydd ac wrth iddi nosi.

Caiff Dinesig ei defnyddio i gyfuniad bywiog o weithgareddau, sy'n adlewyrchu ysbryd newydd Glan Môr Abertawe. Uwchben y llawr gwaelod bywiog, mae fflatiau llawn cymeriad yn cynnig ffordd newydd o fyw ger y môr. Drwy'r adeilad i gyd, mae mannau i weithio a mentrau yn cefnogi busnesau lleol a sefydliadau creadigol. Ar hyd y promenâd ac yn yr atriwm dramatig, mae lletygarwch, diwylliant a digwyddiadau yn creu lleoliad croesawus i breswylwyr, ymwelwyr a'r gymuned yn ehangach. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn sefydlu Dinesig fel man llawn bywyd, cymdeithasol ac agored - lle mae byw, gweithio ac ymweld yn dod ynghyd i lunio profiad arbennig ar y glannau.

Pam Dinesig, pam nawr

“Dinasoedd ar gynnydd 2025”

Dinas gryno, sydd â chysylltiadau da gyda chyrhaeddiad rhanbarthol a chenedlaethol cynyddol yw Abertawe. Mae dwy brifysgol yn darparu llif cryf o dalent graddedigion, gan gefnogi economi sy’n cael ei lywio’n gynyddol gan wybodaeth, creadigrwydd ac arloesedd. Mae buddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol yn arwain cyfnod newydd o adfywio, gyda phrosiectau diwylliannol, hamdden a seilwaith yn ail-lunio’r glannau a chanol y ddinas yn ehangach. Gyda’i gilydd, mae’r newidiadau hyn yn cryfhau enw da Abertawe fel lle i fyw, gweithio a buddsoddi - dinas wedi’i diffinio gan ansawdd bywyd, cyfleoedd a’i lleoliad arfordirol unigryw.

Buddsoddwyr/Partneriaid
Saif Dinesig ar groesffordd y momentwm adfywio a’r creu gwerth hirdymor. Wedi’i lleoli ar lannau gwych Abertawe ac wedi’i hintegreiddio gyda thrawsnewidiad ehangach y ddinas, mae’n elwa o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat parhaus ac economi ymwelwyr sy’n tyfu. Mae ei maint, amlygrwydd a chyfluniad hyblyg yn darparu gwytnwch ar draws cylchoedd marchnad, tra bod ansawdd y bensaernïaeth, y parth cyhoeddus a’r rhaglennu yn gwahaniaethu Dinesig oddi wrth ddatblygiadau defnydd cymysg confensiynol. Yn fwy nag ased sengl, mae Dinesig yn gatalydd - yn llunio lle, yn denu nifer o ymwelwyr ac yn angori gwerth hirdymor yn un o ddinasoedd arfordirol mwyaf arbennig y DU.

Busnesau/Tenantiaid
Mae Dinesig yn cynnig mwy na lle i fasnachu. Mae’n darparu hunaniaeth, gweledigaeth a chysylltiad, mewn lleoliad bywiog ar y glannau, sydd wedi’i lunio gan fwyd, diwylliant a hamddena dyddiol. Mae’r gymysgedd o ddefnydd, digwyddiadau a bywyd cyhoeddus yn creu egni ac amlygiad cyson, gan gefnogi nifer yr ymwelwyr ac ymweliadau mynych. Ar gyfer gweithredwyr a brandiau, mae Dinesig yn cynnig lleoliad sy’n gwella llesiant, yn cefnogi recriwtio a chadw, ac yn cyd-fynd â gwerthoedd yn ymwneud â phrofiad, ansawdd a chymuned. Mae’n fan lle mae busnesau’n dod yn rhan o stori newydd y glannau - gweladwy, cymdeithasol ac wedi gwreiddio yn y Ddinas ar y Traeth.

1 biliwn+
gwerth y rhaglen adfywio sydd ar y gweill ar draws y ddinas

2 filiwn
o bobl yn byw o fewn pellter cymudo o awr

600,000
o bobl yn byw o fewn pellter cymudo o 30 munud

29,000
o fyfyrwyr yn astudio mewn dwy brifysgol, sy’n cyflenwi sgiliau, arloesi a thalent graddedigion

90%
o gartrefi a busnesau eisoes gyda band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit

5
milltir o bromenâd a thraeth tywodlyd

50+
o barciau a gerddi, ynghyd â Phenrhyn Gŵyr (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU) ar stepen eich drws

3,500
y nifer o seddi yn Arena Abertawe sydd drws nesaf

Balchder Dinesig

Dinesig yw'r catalydd hanfodol ar gyfer trawsnewid y Ddinas ar y Traeth.

Am genedlaethau, mae'r Ganolfan Ddinesig wedi bod yn symbol o fywyd cyhoeddus Abertawe. Mae ei thrawsnewid yn fwy na rhoi diben newydd i adeilad - mae'n ymwneud â magu hyder a balchder mewn lle sydd yn berchen i'r ddinas. Bydd Dinesig yn helpu i ailddiffinio sut y gwelir Abertawe, gan y rhai sy'n byw yma a'r rhai sy'n mynychu'r ddinas am y tro cyntaf. Trwy gadw ei chryfder pensaernïol, wrth gyflwyno defnyddiau newydd a bod yn agored, daw Dinesig yn ddatganiad o uchelgais: wedi'i gwreiddio mewn hanes, ond heb fod ofn newid.

↓ Canolfan Ddinesig, Abertawe




Dinas ar y Traeth

↓ Canolfan Ddinesig, Abertawe













Mae Abertawe yn ddinas fywiog, gryno lle mae diwylliant, bwyd, chwaraeon, siopa a hamdden i gyd o fewn cyrraedd hawdd.

Mae popeth wth law yn Abertawe. Saif siopau annibynnol, galerïau, lleoliadau cerddorol, marchnadoedd a thai bwyta ochr yn ochr â lleoliadau diwylliannol a chwaraeon mawr. Mae'n hawdd crwydro'r ddinas oherwydd ei maint, tra bod ei phrifysgolion a'i byd creadigol cynyddol yn dod ag egni, talent ac arloesedd. Y tu hwnt i'r ddinas, gwelir harddwch naturiol i bob cyfeiriad. Mae Bae Abertawe yn troi'n raddol ar hyd y glannau i'r Mwmbwls a chychwyn Penrhyn Gŵyr - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol cyntaf y DU. Diffinir cymeriad Abertawe gan y ffaith bod bywyd dinesig a thirwedd agored mor agos, ac mae'n sail i'w hansawdd bywyd rhagorol.

Mae'r Ddinas ar y Traeth yn ymwneud ag ymuno'r elfennau hyn: ailgysylltu'r ddinas â glan y dŵr, y diwylliant â'r dirwedd, a bywyd bob dydd â'r traeth. Mae'n rhoi llesiant, profiadau cyffredin ac ansawdd amgylcheddol yn rhan ganolog o'r adfywio, gan ddefnyddio'r traeth, nid fel cefndir, ond fel rhan weithredol o ethos y ddinas. Ychydig o leoedd all gynnig mannau dinesig ochr yn ochr â theithiau cerdded ger y môr, bryncynnau glaswelltog yn edrych dros y bae, ac adegau ar gyfer ymlacio ochr yn ochr â lleoliadau llawn egni. Y canlyniad yw canol dinas sy'n teimlo'n iachach, yn fwy dynol - ac yn ddiamheuol yn arfordirol.



← Canolfan Ddinesig, Abertawe

Cyfle glan môr mewn dinas glan môr.

Cyfle glan môr mewn dinas glan môr. Mae gwir gyfleoedd datblygu glan môr o fewn dinasoedd y DU yn eithriadol o brin. Saif Dinesig ar bromenâd pum milltir o hyd Abertawe, yn edrych i'r de dros ehangder llawn Bae Abertawe a'r dŵr agored y tu hwnt. Ychydig o leoedd yn y wlad all gynnig perthynas mor uniongyrchol a di-dor rhwng dinas, môr a thirwedd. Yn llawn bywyd drwy'r dydd ac wrth iddi nosi, caiff Dinesig ei gweld fel hwb dinesig yn llawn egni a gweithgaredd. Mae'r defnydd o letygarwch yn ymestyn tuag at y promenâd a'r glannau, gan ddenu pobl ar hyd y traeth. Ynghyd â'r arena gyfagos, mae Dinesig yn ganolbwynt naturiol ar gyfer economi ymwelwyr Abertawe - lleoliad lle mae digwyddiadau, diwylliant, gan gynnwys acwariwm newydd y ddinas a byw arfordirol yn dod ynghyd. Mae llety preswyl uwchben, ynghyd â'r posibilrwydd o ddefnydd diwylliannol a gwesty, yn sicrhau presenoldeb cyson a synnwyr o fywyd, gan sefydlu Dinesig fel canolfan weithgaredd animeiddiedig, fywiog ar y glannau.

Lleoliad Abertawe

Dinas wedi’i diffinio gan ei pherthynas â’r dŵr yw Abertawe. Yn agored, yn edrych tuag allan ac yn wydn, mae’n cyfuno egni canolfan ddinesig gyda gwagle, harddwch a rhinweddau adferol yr arfordir. Heddiw, mae’r Ddinas ar y Traeth yn denu buddsoddiad sylweddol, hyder diwylliannol newydd a chenhedlaeth newydd o dalent - gan ail-lunio dyfodol y ddinas.

Ble mae'r ddinas yn cwrdd â'r môr

Wedi'i lleoli rhwng canol y ddinas a'r môr, y Ddinas Glan Môr fydd cymdogaeth newydd fwyaf arwyddocaol Abertawe - ardal ddefnydd cymysg sy'n dod â bywyd preswyl, hamdden, diwylliant a lletygarwch ynghyd mewn lleoliad arfordirol diguro. Yn rhan ganolog ohoni mae Dinesig, sy'n cymryd un o'r safleoedd amlycaf yn y bae. Mae ei maint, ei gweledded a'i safle ar y glannau yn ei gosod ar reng flaen trawsnewidiad y ddinas, gan helpu i fframio mannau cyhoeddus newydd, bywiogi'r promenâd a dangos eich bod wedi cyrraedd y Ddinas ar y Traeth.

Fel y cam hanfodol cyntaf yn y weledigaeth ehangach hon, mae Dinesig yn agor allan i'r glannau ar lefel y ddaear, gan ymestyn egni'r ddinas tuag at y môr. Mae mannau cyhoeddus, caffis ac unedau gweithredol yn bywiogi'r promenâd drwy gydol y dydd, gan greu man bywiog lle bydd pobl yn cwrdd, yn cael seibiant ac yn teithio drwodd. Daw'r adeilad yn rhan o'r profiad glan môr - nid ffin, ond cysylltydd rhwng bywyd dinesig a'r arfordir agored, gan helpu i sefydlu cymeriad a momentwm esblygol Dinas Glan Môr Abertawe.

Y Ganolfan Ddinesig, Abertawe ↓



Mae Dinesig wedi trawsnewid un o adeiladau mwyaf adnabyddus Abertawe yn fan canolog newydd ar gyfer cymdogaeth Dinas Glan Môr newydd. Yn enghraifft feiddgar o Frwtaliaeth Gymreig, mae'r hen Ganolfan Ddinesig yn cael ei hailddychmygu fel lleoliad cyfoes, defnydd cymysg - wedi'i hadeiladu ar seiliau cadarn, wedi'i llunio ar gyfer defnydd newydd, ac yn agored i bawb.

Yn rhan ganolog o'r Ddinas Glan Môr ac o fewn adfywiad ehangach y Ddinas ar y Traeth, mae Dinesig yn cynrychioli newid yn y modd mae Abertawe yn gwasanaethu ei dinasyddion ac yn cyflwyno'i hun i'r byd. Yn fwy nag adnewyddu adeilad unigol, mae'n ffurfio rhan o ailddychmygiad ehangach y ddinas - yn ailgysylltu bywyd dinesig, diwylliant a masnach gyda'r glannau, gan barhau â stori ddinesig Abertawe fel arwydd o bennod newydd hyderus. Drwy gadw'r hyn sy'n gwneud yr adeilad yn arbennig a'i agor i ddefnydd, cynulleidfaoedd ac egni newydd, mae Dinesig yn helpu i lunio dinas sy'n edrych tuag allan, yn gynhwysol ac yn cael ei diffinio gan ei pherthynas gyda'r môr.

Abertawe
Y Ddinas
ar y
Traeth

Dinesig: lleoliad glan môr o'r radd flaenaf sy'n rhan ganolog o Ddinas Glan Môr newydd.

urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council